


Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Ceibwr / Pwllgranant

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 300 600 m

PELLTER/HYD: 4.3 milltir (6.9 km) 2 awr 30 munud

CLUDIANT CYHOEDDUS: *Poppit Rocket 405 (*tymhorol, galw a teithio)

CYMERIAD: Arfordir garw, ymyl clogwyni, lonydd,


CHWILIWCH AM: Golygfeydd • adar y môr • daeareg arfordirol

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiau

ALLWEDD

- ● ● ● Llwyr Cylch
- Llwyr Arfordir Sir Benfro
Llwyr Cenedlaethol
- Lwybrau Cyhoeddus
- P Parcio
- WC Toileddau Cyhoeddus
- ☒ Safle Bws
- ☒ Caffi



Ceibwr/Pwllgranant

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 2 awr 30 munud

Pellter: 4.3 milltir (6.9 km)

Cludiant cyhoeddus: *Poppit
Rocket 405 (*tymhorol, galw a teithio).

Cyfeirnod map: SN105455

**Adran wyllt ac ynysig o forlin
gyda "Phwll-y-wrach" yn
nodwedd ddramatig iawn...**

Chwiliwch am: Golygfeydd, adar y
môr, daeareg arfordirol.

Mae'r arfordir o amgylch Ceibwr yn
unig ac yn wyllt, mwy felly nag
 unrhyw adran arall o arfordir Penfro.
Mae'r clogwyni ym Mae Ceibwr wedi
eu gwyrddroi a'u plygu'n drawiadol
gan symudiadau'r ddaear yn yr oes
Galedonaidd, tua 450 miliwn o
flynyddoedd yn ôl (nid yw'r traeth yn
addas i nofio). Ar hyd yr arfordir mae
yna glogwyni garw, ogofau,
chwythdyllau, traethau bach o gerrig
mân nad oes modd eu cyrraedd a
bwâu.

Diolch i unigrwydd yr ehangder hwn
o arfordir mae'n le gwych i weld
morloi ac amrywiaeth o adar y môr
gan gynnwys gwylanod, gwylanod y
graig, mulfrain gwyrdd, mulfrain,
brain coesgoch, bwncathod, cudyllod
coch a chigfrain.

Mae yna fryngaer Oes Haearn hefyd,
Castell Treriffith, i'r de o Bwll-y-wrach.

Cymeriad: Arfordir garw, ymyl
clogwyni, lonydd.

Mwy o wybodaeth: Mae'r traeth
yma yn anaddas ar gyfer ymdrochi.

